

O'R SWYDDFA
I'R DOSBARTH...

Astudiaeth Achos Ceri John



Wedi ei eni a'i fagu yn Aberystwyth, dechreuodd Ceri John ar yrfa eang yng Nghaerdydd oedd yn cynnwys amrywiaeth o swyddi – o fonitro'r cyfryngau i gydlynu etholiadau. Ond roedd wastad yn awchu i addysgu a diolch i gymhellion Llywodraeth Cymru i hyfforddi, yn ogystal â'i gariad tuag at Ffrangeg, y mae erbyn hyn yn gwireddu ei freuddwyd.

"Roedd fy rhieni'n athrawon, a dw i'n credu bod hynny wedi dylanwadu arnaf i. Roeddwn wirioneddol yn mwynhau'r gwaith oedd gennyf eisoes, ond roedd teimlad yn parhau mai addysgu oedd yr hyn oeddwn wir eisiau ei wneud – y cwestiwn mawr oedd sut i wneud hynny o safbwynt ymarferol.

"Fe wnes ychydig o waith ymchwil a darganfod ei bod hi'n bosibl i mi hyfforddi tra'n cael fy nghyflogi yn fy swydd bresennol. Roedd hyn yn golygu y byddwn yn derbyn cyflog, a oedd yn ffactor bwysig, gan ystyried bod gen i deulu ifanc ar y pryd."

Bonws arall i Ceri oedd ei fod yn gallu ymgymryd â'r cwrs yn ei dref enedigol – yn ei hen ysgol hyd yn oed.

"Roeddwn wastad yn awyddus i ddychwelyd yn ôl i Geredigion, roeddwn wrth fy modd yno ac yn frwd i fagu fy nheulu fy hun yno. Roedd ychydig yn rhyfedd dychwelyd yn ôl i Benweddig, fy hen ysgol, ar y dechrau, gan fod rhai o fy nghyn-athrawon yn dal i fod yno! Ond, chymerodd hi ddim yn hir i fi setlo yno, ac erbyn hyn rydw i'n wirioneddol mwynhau'r profiad."

Ieithoedd Tramor Modern yw penc Ceri, gan arbenigo mewn Ffrangeg, ac mae wrth ei fodd yn gweld meddyliau ei fyfyrwyr yn agor i ieithoedd a diwylliannau newydd.

"Dwi'n meddwl bod gen i fantais fy mod yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac o ganlyniad, mae fy myfyrwyr yn hollol ymwybodol o ddwyieithrwydd ac yn gallu sgwrsio mewn mwy nac un iaith. Felly, mae Ffrangeg yn iaith arall i'w dysgu – ac maen nhw'n gwneud hynny yn ddiraffferth.

"Mae'n rhaid i mi ddweud bod triapiau tramor yn wych hefyd – er bod gen i gyfrifoldeb sylweddol – mae'n gyffrous gweld y myfyrwyr yn cynnal sgwrs gyda'r trigolion lleol ar strydoedd Paris, neu archebu pryd o fwyd mewn bwyty. Mae'n swnio'n wirion ond mae pethau fel hyn yn fy llenwi â balchder."

A beth fyddai cyngor Ceri i unrhyw un arall sy'n ystyried newid eu gyrfa i fod yn athro?

"Gwnewch eich gwaith ymchwil i ddechrau – mae amrywiaeth o opsiynau o ran cymhellion ar gael, felly mae'n rhaid i chi weld beth sydd fwyaf addas i chi. Ond fe allaf wirioneddol ddweud na wnewch chi ddifaru hyn – mae'n yrfa sy'n rhoi boddhad. I fi, mae wedi bod un o'r penderfyniadau gorau i fi wneud erioed."

#AddysguCymru
www.addysgwyr.cymru